Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# DIWEDDARIAD HAF 2023

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0808 169 5110

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol (RABI)**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Llinell Gymorth TB**
0800 496 1439

**Tir Dewi**
0800 121 4722

# CYNLLINIAU GWLEDIG DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| **24** GORFF | Grantiau Bach – Creu Coetir EOI Ffenestr 3 yn agor<br>Grant Creu Coetir EOI yn agor* |
| **21** AWST | Grantiau Bach – Amgylchedd Ffenestr EOI yn agor |
| **15** MEDI | Grantiau Bach – Creu Coetir EOI Ffenestr 3 yn cau<br>Grant Creu Coetir EOI yn cau* |
| **29** MEDI | Grantiau Bach – Amgylchedd EOI yn cau |
| **1** TACH | Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau Ffenestr EOI yn agor |
| **15** RHAG | Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau Ffenestr EOI yn cau |

*I fod yn gymwys i wneud cais, rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn cadarnhad o wirio cynllun WCPS yn llawn gan CNC erbyn 4 Medi 2023.

Nodir bod y wybodaeth yn y Diweddariad Haf 2023 yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi ar 14 Gorffennaf 2023. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: llyw.cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023
WG47622
ISBN Digidol: 978 1 83504 308 0
ISBN Argraffu: 978 1 83504 307 3

# CYNNWYS



04
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

05
BIL AMAETHYDDIAETH (CYMRU) – DIWEDDARIAD

06
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY – DIWEDDARIAD AR GYD-DDYLUNIO A DATBLYGU'R CYNLLUN

06
CYNLLUNIAU COETIR

08
CYNLLUNIAU CEFNOGI AMAETHYDDIAETH 2023

09
CYNLLUNIAU CEFNOGI AMAETHYDDIAETH 2023

11
RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

12
YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADNABOD A SYMUDIADAU DA BYW

14
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU

15
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

17
DEWCH I'N GWELD YN Y SIOEAU

17
DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK

18
CYSWLLT FFERMIO

21
UNED GEFNOGI RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU

22
BLE ALLA I GAEL HELP?

# TALIADAU GWLEDIG CYMRU

## Trawsgydymffurfio – 2023

Mae'r taflenni ffeithiau Trawsgydymffurfio wedi'u diweddaru ar gyfer 2023 i adlewyrchu newidiadau yn y gofynion, arferion da ac i egluro geiriad. Bu rhai newidiadau hefyd i Safonau Hysbysadwy Trawsgydymffurfio 2023 ar gyfer dosbarthu achosion o dramgwyddo Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Gofynion Rheoli Statudol (SMR).

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys SMR 1 – Diogelu Dŵr, wedi'u diweddaru i adlewyrchu gofynion sy'n berthnasol i bob tir o 1 Ionawr 2023 o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Dylech wirio ac adolygu'r taflenni ffeithiau Trawsgydymffurfio yn rheolaidd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

**llyw.cymru/trawsgydymffurfio-2023**



## RPW Ar-lein: Rheoli Fy Rhifau Adnabod Daliadau (CPH)

Mae Rheoli Fy CPH yn galluogi ceidwaid i weld a chynnal a chadw'r tir sydd wedi'i gynnwys yn eu CPH, ac i greu neu gau CPH gan ddefnyddio'r system RPW Ar-lein.

Ar hyn o bryd, mae dros 66% o geidwaid da byw gweithredol yn defnyddio ac yn elwa ar y rheolau CPH newydd sydd:

- yn caniatáu symudiadau heb eu cofnodi o fewn radiws o 10 milltir;
- â phroses syml ar gyfer cofrestru cysylltiadau tir dros dro o fewn y radiws deng milltir i'r CPH presennol ar unwaith; ac
- yn caniatáu ceidwaid sy'n caffael tir yn barhaol neu dros dro greu CPH parhaol neu dros dro newydd, yn ôl yr angen.

Os nad ydych eisoes wedi diweddaru eich manylion CPH ar y system RPW Ar-lein, cysylltwch â RPW yn uniongyrchol, lle y mae staff ar gael i gynnig cymorth. Bydd cymorth digidol hefyd yn cael ei ddarparu os oes angen.

Mae canllawiau ar CPH a Symudiadau Da Byw, gan gynnwys canllawiau Taliadau Gwledig Cymru gan ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH' a phecynnau e-ddysgu ychwanegol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: **llyw.cymru/rpw-ar-lein-defnyddio-rheoli-fy-cph**

### Taliadau BPS 2023

Bydd taliad ymlaen llaw, gwerth 70% o werth amcangyfrifedig hawliadau BPS 2023, yn cael ei wneud o 12 Hydref 2023 ymlaen, yn amodol ar gymhwystra hawlio a chael yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen. Bydd taliadau balans yn cael eu gwneud o 15 Rhagfyr 2023 ymlaen.

### Taliadau Glastir 2023

Eleni, er mwyn gwneud y defnydd gorau o wariant yr UE erbyn 31 Rhagfyr, bydd taliadau'r hawliadau Glastir Uwch, Comin ac Organig yn dechrau o 1 Rhagfyr 2023 ymlaen, yn amodol ar gymhwystra hawlio a chael yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen.

# BIL AMAETHYDDIAETH (CYMRU) — DIWEDDARIAD



Rydym bellach yn agos iawn at gael ein Deddf Amaethyddiaeth gyntaf erioed i Gymru. Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi bod yn mynd rhagddo drwy'r Senedd ers mis Medi diwethaf. Mae'r Bil newydd gwblhau'r camau craffu terfynol ac yn aros am Gydsyniad Brenhinol cyn dod yn gyfraith yn ddiweddarach yr haf hwn. Bydd y Ddeddf hon yn cael ei gwneud yn ddeddfwriaeth yng Nghymru i fodloni blaenoriaethau Cymru, ac mae'n seiliedig ar yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy canlynol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ein ffermwyr;

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy
2. lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd
3. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu
4. gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad ac ymgysylltiad cyhoeddus â hwy a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso y defnydd ohoni.

Bydd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy hyn yn sail i holl gymorth y llywodraeth yn y dyfodol i ffermio yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY – DIWEDDARIAD AR GYD-DDYLUNIO A DATBLYGU'R CYNLLUN

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd canlyniadau gennym ar ymarfer cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y llynedd. Cawsom tua 1600 o gyfraniadau gan ffermwyr drwy arolygon ar-lein, cyfweliadau a gweithdai grŵp. Wedi cyhoeddi Cynigion Amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yr haf diwethaf, mae'r broses gyd-ddylunio wedi galluogi ffermwyr ac eraill sydd â diddordeb i gyfrannu eu syniadau a'u profiad i'n helpu i sicrhau bod y cynllun yn hygyrch ac ymarferol i bawb.

Mae'r adborth cyd-ddylunio hwn yn amhrisiadwy a bydd yn cael ei gyfuno â'n datblygiadau polisi parhaus i helpu i lunio fersiwn nesaf cynigion y cynllun y dylid ymgynghori arnynt tua diwedd y flwyddyn hon. Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud hyd nes y bydd yr ymgynghoriad nesaf hwn yn dod i ben. Bydd ffermwyr yn dechrau trosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025.

Gallwch weld yr adroddiadau cydgynllunio llawn ac ymateb Llywodraeth Cymru: **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw**

# CYNLLUNIAU COETIR

## Cyhoeddi cyfraddau talu uwch ar gyfer ffermwyr sy'n creu coetiroedd


Ar 25 Mai cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, gyfraddau talu uwch ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymru fel rhan o ymgyrch Cymru i blannu 86 miliwn o goed erbyn diwedd y degawd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'r cyfraddau talu uwch yn berthnasol i'r ddau grant, sef Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir a'r Grant Creu Coetir.

Yn dilyn adolygiad ac mewn ymateb i adborth gan y sector, mae'r cyfraddau wedi eu codi i dalu 100% o gostau gwirioneddol 2023, sy'n gynnydd sylweddol ar y cyfraddau blaenorol.

Mae'r cynnydd yn cynnwys taliadau am ffensys a'r taliadau cynnal a chadw deuddeg mlynedd, sydd hefyd yn dechrau'n ddwys er mwyn cydnabod y costau uwch yn y blynyddoedd cynnar ar ôl plannu.

Am ragor o wybodaeth ar y cyhoeddiad, ewch i: **llyw.cymru/cyfraddau-talu-uwch-ar-gyfer-ffermwyr-syn-creu-coetir**

Am ragor o wybodaeth ar y cynlluniau creu coetir ewch i: **llyw.cymru/grantiau-coedwigaeth**



## Cynlluniau Creu Coetir

Rydym wedi ymrwymo £30 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf i greu cynnig newydd i ffermwyr a pherchnogion tir er mwyn creu coetiroedd.

Bydd y cyfnod ymgeisio nesaf yn agor ddydd Llun 24 Gorffennaf 2023 ac yn cau ar 15 Medi 2023.

Er mwyn gallu gwneud cais am y Grant Creu Coetir:

- yn gyntaf rhaid ichi wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir, a
- bydd angen cadarnhad o gynllun wedi ei ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru arnoch erbyn 4 Medi 2023.
- Ar gyfer y Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir, nid oes angen cynllun creu coetir.

### Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi ffermwyr a pherchnogion tir i blannu coed ar dir o dan ddau hectar ac sydd:

- wedi'i wella'n amaethyddol, neu
- o werth amgylcheddol isel

**Mae'n darparu cymorth ariannol ar gyfer:**

- plannu coed
- ffensys
- cynnal a chadw, a
- thaliadau premiwm (digolledu am golli incwm amaethyddol).

**Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:**

- cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau.
- dim angen cynllun creu coetir wedi ei ddilysu – fel rhan o'r cynllun, bydd cynllun creu coetir sy'n cydymffurfio â safon Coedwigaeth y DU yn cael ei greu gan system RPW ar-lein.
- nid yw plannu yn effeithio ar daliadau'r Cynllun Taliadau Sylfaenol (BPS) nac ar gymhwystra tir
- 12 mlynedd o daliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm.

**Gellir plannu:**

- coed cysgodol
- ar hyd cyrsiau dŵr
- yng nghorneli caeau neu mewn caeau bach
- mannau cysgodi stoc
- bioamrywiaeth
- tanwydd pren

Am ragor o wybodaeth ewch i: **llyw.cymru/grantiau-bach-cynllun-creu-coetir**

## Y Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau creu coetir newydd. Mae'r cynllun:

- yn cynnig cymorth ariannol rhwng £1,000 a £5,000
- yn galluogi defnyddio cynllunydd coetir cofrestredig i ddatblygu cynllun coetir newydd

Am ragor o wybodaeth ewch i: **llyw.cymru/y-cynllun-cynllunio-creu-coetir-trosolwg**



## Grant Creu Coetir

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi ffermwyr a pherchnogion tir i blannu:

- arwynebeddau mwy o goetir dros ddau hectar; ac
- ardaloedd llai nad ydynt yn addas ar gyfer y cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.

**Mae'n darparu cymorth ariannol ar gyfer:**

- plannu coed
- ffensys,
- cynnal a chadw, a
- taliadau premiwm (digolledu am golli incwm amaethyddol).

Rhaid i ymgeiswyr fod â Chynllun Creu Coetir cyn gallu gwneud cais.

Mae cyllid ar gyfer cynllun ar gael drwy'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn creu ardaloedd mwy o goetir.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **gov.wales/woodland-creation-grant-overview**

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw rai o'r cynlluniau hyn, cysylltwch: **polisicoedwigaeth.forestrypolicy@llyw.cymru**

## CYNLLUNIAU CEFNOGI AMAETHYDDIAETH 2023

Mae'r dyddiadau ymgeisio ar gyfer cynlluniau cymorth Amaethyddol a gynigir yn 2023 wedi'u cyhoeddi yn: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**

Mae gwybodaeth llawn ac arweiniad ar gyfer y Cynlluniau ar gael yn: **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**

# RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

## Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – Y Gofynion o 1 Ionawr 2023 ymlaen



Cyflwynwyd ail gam Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar 1 Ionawr 2023.

Mae'r gofynion newydd ar gyfer busnesau fferm yn cynnwys:

- mapiau risg,
- storio tail organig (heblaw am slyri),
- safleoedd dros dro mewn caeau,
- mewnforio/allforio tail,
- cofnodi rheoli maetholion (NMP) a'r defnydd o faetholion wedi'u cyfyngi i derfynau a nodir ar gyfer cnydau.

Am ddogfennau canllaw a rhagor o wybodaeth ynghylch y gofynion, ewch i **llyw.cymru/llygredd-fferm**.

Mewn ardaloedd a oedd o fewn Parth Perygl Nitradau yn flaenorol, ni chyflwynwyd y gofynion yn raddol ac mae bob rheol wedi bod yn gymwys ers 1 Ebrill 2021.

### Canllaw Cyflym i Gynlluniau Rheoli Maethynnau (NMP)

Defnyddir y Cynllun Rheoli Maethynnau i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ond mae hefyd yn adnodd pwysig ar gyfer rheoli'r broses o ddodi gwrteithiau nitrogen ar eich daliad. Gall hyn wella twf cnydau, lleihau'r defnydd o wrteithiau a weithgynhyrchwyd a lleihau'r perygl o lygredd.

Rhaid cwblhau'r Cynllun Rheoli Maethynnau cyn bod unrhyw dail organig neu wrteithiau a weithgynhyrchwyd yn cael eu taenu ar gnydau, ac yn achos glaswelltir, cyn 1 Ionawr bob blwyddyn.

### Cymorth

Er mwyn cefnogi gofynion y Cynllun Rheoli Maethynnau, mae llawlyfr digidol wedi'i ddatblygu ac mae ar gael ar wefan **llyw.cymru/llygredd-fferm** Llywodraeth Cymru.

Mae gan Cyswllt Ffermio ystod o gymorth ar gael sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, gan gynnwys canllawiau ar gwblhau'r llawlyfr digidol a gofynion eraill y rheoliadau. I gael yr adnoddau a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Cyswllt Ffermio, gov.wales/farmingconnect/cy.

Mae rhagor o gymorth technegol ynghylch Cynllunio Rheoli Maethynnau hefyd ar gael drwy Linell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS). Y rhif ffôn yw 01974 847 000.

## Y terfynau nitrogen uchaf yn ôl math o gnwd

- Ni chaiff cyfanswm y Nitrogen mewn naill ai gwrteithiau organig neu wrteithiau a weithgynhyrchwyd a ddodir ar gnwd (gan gynnwys glaswelltir) fod yn fwy na'r terfynau a nodir yn y rheoliadau.



## Y terfynau nitrogen ar gyfer taenu tail

- Cymhwysir uchafswm o 250kg fesul hectar unigol i'r broses o daenu tail organig am unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

## Cofnodi'r gwaith o daenu tail a gwrteithiau

- Bydd angen ichi gofnodi o fewn 1 wythnos yr union waith o daenu gwrteithiau ar unrhyw gnwd, gan gynnwys glaswelltir. Rhaid cynnwys gwybodaeth megis y math a'r cynnwys nitrogen, y mannau lle cafodd ei daenu, faint ohono a daenwyd a'r dyddiad taenu.
- Mae eithriadau ar gyfer cofnodi'r union waith taenu ar gyfer tail organig yn berthnasol i ffermydd sydd â mewnbwn maethynnau isel. Gweler y canllawiau am fanylion ynghylch eithriadau.

## Ystyriaethau eraill

- Mae'r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd yn cyfeirio at gyfanswm y nitrogen sydd ar gael yn y pridd i'r cnwd ei amsugno. Caiff hyn ei ddylanwadu gan fathau o bridd, cnydio blaenorol, tail blaenorol o dail a gwrteithiau yn ogystal â dŵr glaw. Mae angen yr wybodaeth hon wrth ddatblygu cynlluniau.
- Gall y cynllun o wasgaru tail effeithio ar eich gofynion storio tail neu slyri.

- Bydd angen ichi ystyried y nodweddion a nodwyd yn eich map risg a sut y maen nhw'n effeithio ar y tir sydd ar gael ichi ar gyfer taenu tail organig.
- Efallai y byddwch yn ystyried allforio unrhyw dail sydd dros ben o'ch daliad, neu fewnforio tail ychwanegol os ydych chi wedi nodi unrhyw ddiffygion o ran maethynnau. Mae angen cofnodi achosion o fewnforio neu allforio tail hefyd.
- Efallai y bydd angen ichi ystyried effaith y cyfnodau caeedig ar gyfer taenu yn eich Cynllun Rheoli Maethynnau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â Nitrogen a weithgynhyrchwyd, sy'n gymwys o 1 Ebrill 2021 ymlaen neu'r rhai hynny sy'n ymwneud â thail organig, a fydd yn gymwys o 1 Awst 2024 ymlaen.

### Cadw Cofnodion

- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu templedi a llawlyfr digidol o fewn y canllawiau ar gyfer cofnodi Cynlluniau Rheoli Maethynnau, fodd bynnag, mae modd ichi gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau yn cael eu bodloni.
- Rhaid cadw copïau o Gynlluniau Rheoli Maethynnau am o leiaf 5 mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

## MASNACHU CREDYDAU CARBON

Gall cwmnïau preifat gysylltu â ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru sydd am brynu credydau carbon ar gyfer ffermwyr i wrthbwyso allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Er y gallai fod cyfle i ffermwyr greu ffrwd incwm newydd trwy werthu credydau carbon, efallai y bydd angen i dirfeddianwyr fod yn ofalus ynghylch gwerthu credydau carbon nes eu bod yn gwybod faint o garbon y gall eu tir ei ddal a faint o garbon y maent yn ei allyrru fel busnes.

Gall ffermwyr ddefnyddio cyfrifiannell garbon i'w helpu i asesu a allai fod ganddynt gredydau carbon dros ben sydd ar gael ar gyfer masnachu. Bydd hyn yn caniatáu i fusnesau gyfrifo a oes unrhyw credydau dros ben y gellir eu masnachu i drydydd parti, heb effeithio ar allu'r fferm i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net nawr ac yn y dyfodol.

Unwaith y bydd ffermwyr yn gwerthu credydau carbon, ni allant eu cyfrif tuag at eu hymdrechion eu hunain i leihau carbon.

Gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad pellach ynghylch beth i'w ystyried yn y dolenni canlynol:

- ahdb.org.uk/carbon-markets
- ahdb.org.uk/knowledge-library/carbon-footprint-calculators-what-to-ask-to-help-you-choose
- woodlandcarboncode.org.uk
- cao.int/environmental-protection/CORSIA

# YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADNABOD A SYMUDIADAU DA BYW



## Cymru Amlrywogaeth

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddatblygu EIDCymru i fod yn system amlrywogaeth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar adeiladu rheolau'r system ar gyfer gwartheg, ac yn gobeithio lansio ar gyfer ceidwaid Cymru yn 2024. Byddwn yn rhoi'r manylion diweddaraf ichi wrth i'r gwaith symud yn ei flaen.

## EIDCymru

Ydych chi'n defnyddio EIDCymru i adrodd am eich symudiadau defaid yn electronig? Mae staff yn swyddfa EIDCymru yn hapus i'ch cynorthwyo i fewngofnodi i'r system neu egluro'r broses i chi fesul cam. Maent ar gael ar y ffôn ar 01970 636 959 neu drwy e-bost ar cymorth@eidcymru.org

## Rheoli Fy CPH – Symudiadau Da Byw

Wyddoch chi y gallech o bosibl uno yr holl dir sydd gennych o fewn radiws o 10 milltir i un CPH? Bydd hyn yn lleihau eich gwaith papur ac yn symleiddio'r gwaith o gofnodi symudiadau. I weld os ydych yn gymwys ac am ganllawiau ar sut i ddefnyddio Rheoli fy CPH, ewch i RPW Ar-lein: **llyw.cymru/rpw-ar-lein-pecyn-e-ddysgu-cph-cyflwyniad-sut-i-ddefnyddio**

Eisoes yn defnyddio Rheoli Fy CPH? Cofiwch sicrhau bod eich holl fanylion yn gyfredol. Gallai hen wybodaeth ar Rheoli Fy CPH atal y broses o olrhain da byw os bydd achos o glefyd hysbysadwy, a gallai rwystro symudiadau eich da byw.

## Ydych chi wedi symud gwartheg o'r Alban i'ch daliad yn ddiweddar?

Rhaid i'r holl wartheg yng Nghymru gael un prif dag clust ac un ail dag clust, â'r ddau yn dangos yr un rhif adnabod unigryw. Rhaid i'r prif dag fod yn dag baner melyn, y gellir ei ddarllen o bell. Rhaid i'r ail dag fod yn y glust arall i'r prif dag. Rhaid iddo gynnwys yr un wybodaeth ag sydd ar y prif dag ond gall hefyd gynnwys gwybodaeth reoli a sglodyn EID.

Ers dechrau 2022, mae rhai ceidwaid yn yr Alban wedi gallu archebu prif dagiau EID pinc, a gallai'r anifeiliaid hynny symud dros y ffin i mewn i Gymru. Nid yw derbyn gwartheg sydd â phrif dagiau clust anghywir i ddaliadau yng Nghymru yn mynd yn groes i reoliadau adnabod gwartheg, ond mae symud gwartheg sydd wedi eu tagio yn anghywir oddi ar ddaliad yng Nghymru yn mynd yn groes iddynt, ac yn golygu torri amod Trwydded Symud Gyffredinol. Rhaid i unrhyw geidwad sydd â gwartheg â phrif dagiau clust EID pinc anfon e-bost at dîm polisi Adnabod Da Byw Llywodraeth Cymru ar AdnabodDaByw.LivestockID@llyw.cymru, a byddwn yn cysylltu â chi i egluro'r camau nesaf.

## Newidiadau i rifau adnabod defaid a geifr

Er mwyn paratoi at gyflwyno Dyfeisiau Adnabod Electronig Buchol (BEID) yn y dyfodol, bydd y fformat rhifo ar gyfer tagiau gwartheg yr un peth â'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer tagiau defaid a geifr. Mae gan hwn ragddodiad 0 a bydd yn dileu'r digid gwirio.

Er mwyn sicrhau mai dim ond un rhif adnabod unigryw sydd yn cael ei ddefnyddio ar farc unigol y ddiadell neu'r fuches, mae'r rhifau rhwng 00001 a 69999 wedi eu dyrannu i ddefaid a geifr, a'r rhifau rhwng 70000 a 99999 wedi eu dyrannu i wartheg.

Rhaid i geidwaid sydd wedi archebu rhifau tag newydd hyd at y 69999 a ddyrannwyd i ddefaid a'r 99999 a ddyrannwyd i wartheg drefnu bod APHA yn cyhoeddi rhif diadell/buches newydd, gellir cysylltu â nhw ar y ffôn ar 0300 303 8268 neu drwy e-bost apha.cymruwales@apha.gsi.gov.uk.

Mae rhagor o wybodaeth gyswllt wedi ei chynnwys yn ein canllawiau Adnabod defaid a geifr: canllawiau i geidwaid ar wefan Llywodraeth Cymru.



# CADW PLANT YN DDIOGEL AR Y FFERM



Ni ddylid caniatau i blant fod yn ardal waith y fferm (a dylai plant ifanc fwynhau'r awyr agored mewn ardal ddiogel sydd wedi cael ei ffensio).

Dylid cynllunio a goruchwylio ymweliad unrhyw blentyn o dan 16 ag ardal waith y fferm, ar gyfer addysg neu brofiad i ddatblygu gwybodaeth, gan oedolyn nad yw'n gwneud y gwaith.

Mae plant o dan 13 wedi'u gwahardd yn benodol rhag gyrru na mynd ar gefn unrhyw beiriant amaethyddol.

Am fwy o wybodaeth, sganiwch yma:
neu, chwiliwch www.hse.gov.uk

PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID

## Ffliw Adar: sut i'w atal a'i rwystro rhag lledaenu

Mae ffliw adar yn glefyd feirysol heintus iawn sy'n lledaenu ymhlith adar.

**Prif achosion ffliw adar mewn dofednod ac adar caeth eraill yw:**

- **dod i gysylltiad ag adar gwyllt, yn benodol adar y dŵr, hwyaid, elyrch a gwylanod**
- **tail o adar heintiedig**
- **esgidiau, dillad, cerbydau ac offer budr**



## Sut i leihau'r perygl o ffliw adar yr haf hwn

Er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu ffliw adar yr haf hwn, cofiwch:

Os ydych yn cadw dofednod neu adar eraill, defnyddiwch arferion hylendid gofalus a manwl ar bob adeg i ddiogelu eich haid. Rhaid i geidwaid yng Nghymru barhau i roi mesurau bioddiogelwch gorfodol ar waith, a chwblhau rhestr wirio'r hunanasesiad bioddiogelwch gorfodol nes ichi glywed fel arall: **llyw.cymru/rhestr-wirio-hunan-asesu-gorfodol**

1. Glanhau a diheintio eich esgidiau a golchi eich dwylo bob amser cyn ac ar ôl delio â'ch adar.
2. Peidio â chodi neu gyffwrdd ag adar gwyllt marw neu sâl.
3. Peidio â chyffwrdd â phlu adar gwyllt neu arwynebau wedi'u heintio â thail adar.
4. Cadw at lwybrau a chadw cŵn ar dennyn.

Os ydych yn dod ar draws unrhyw adar gwyllt neu farw, rhowch wybod amdanyn nhw i linell gymorth APHA ar 03003 038268.

## Atal clefydau yr haf hwn

Mae'r haf yn amser gwych i gael barbeciw, ymweld â swiau anwesu, mynd am dro a chael picnic yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gall rhyngweithio â bywyd gwyllt ac anifeiliaid eraill beri risg i chi a'ch anifeiliaid. Pan fyddwch allan yn yr awyr agored yr haf hwn, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn yn ddiogel, drwy ddilyn rhai camau sylfaenol.

## Bywyd gwyllt

Gall anifeiliaid gwyllt gario clefydau heb unrhyw symptomau amlwg. Gall cysylltiad agos ag anifeiliaid gwyllt neu eu baw ledaenu clefydau i bobl, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill. Felly, mae'n bwysig mwynhau bywyd gwyllt yn ddiogel ac o bell.

**Dyma y gallwch chi ei wneud i amddiffyn eich hun a'ch teulu yr haf hwn:**

- Osgoi bwydo anifeiliaid gwyllt – Gall eich bwyd achosi niwed ac mae bwydo rhai mathau o anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys baeddod gwyllt, yn anghyfreithlon.
- Gall baw anifeiliaid gwyllt gario clefydau peryglus – dylid atal plant ac anifeiliaid anwes rhag chwarae mewn ardaloedd halogedig.
- Cael gwared ar holl wastraff picnic yn ddiogel ac yn effeithiol, naill ai mewn biniau a ddarperir neu drwy fynd â'ch sbwriel adref.
- Golchwch eich dwylo bob amser gyda sebon a dŵr ar ôl chwarae yn yr awyr agored, yn enwedig mewn ardaloedd bywyd gwyllt, a chyn bwyta neu gyffwrdd â bwyd.
- Cadwch lygad ar gyfer ticiau a chael gwared arnynt, yn enwedig ar ôl cerdded drwy laswelltir.





## Anifeiliaid fferm

Gall golchi eich dwylo (gyda sebon a dŵr sy'n llifo) yn syth ar ôl cyffwrdd ag anifeiliaid fferm ac anifeiliaid mewn sw anwesu, eu cyflenwadau neu unrhyw beth yn yr ardaloedd lle maent yn byw, wneud llawer i helpu o ran atal salwch.

Os ydych yn cadw da byw, cadwch lygad am arwyddion o glefydau yn ogystal â newidiadau o ran ymddygiad, cymeriant bwyd anifeiliaid a chydsymudiad. Cysylltwch ag APHA ar 0300 303 8268 os ydych yn amau bod clefyd hysbysadwy ar anifeiliaid. Holwch eich milfeddyg ar unwaith os oes gennych unrhyw bryderon am eich anifeiliaid.

Wrth fynd allan am dro, byddwch yn ofalus o amgylch da byw a chadwch gŵn ar dennyn.

# DEWCH I'N GWELD YN Y SIOEAU

Dewch i'n gweld yn  Sioe Frenhinol Cymru a sioeau amaethyddol eraill yr haf hwn Bydd staff Llywodraeth Cymru gan gynnwys aelodau o dîm y Gwasanaeth Cyswlltwyr Fferm yn bresennol ym Mhafiliwn Llywodraeth Cymru yn ystod Sioe Frenhinol Cymru, a hefyd Sioe Ynys Môn. Sir Benfro, Dinbych a Fflint, Meirionnydd a Brynbuga yn ystod misoedd yr haf.

Bydd staff ar gael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar amrywiaeth o bynciau cyfredol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, cynlluniau Cymorth Amaethyddol, Cynlluniau Creu Coetiroedd .y diweddaraf ar y Rheoliadau Dŵr.a Iechyd a lles anifeiliaid.

**Galwch draw am sgwrs!**

# DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK!

Gallwch nawr ein dilyn am newyddion a diweddariadau rheolaidd ar bynciau sy'n ymwneud â materion gwledig ar ein tudalen Facebook newydd sbon.

Chwilio am Cymru Wledig / Rural Wales ar Facebook.

**Gallwch hefyd ein dilyn ar ein cyfrif Twitter (@WGRural).**

**Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn Ein e-gylchlythyr materion gwledig misol**

**Gwlad trwy ymweld: llyw.cymru/ subscribe/announcements**

MENTORA
MENTORING

# Mae Cyswllt Ffermio wedi ailbenodi tîm o fentoriaid i gyflwyno'r gwasanaeth mentora am y ddwy flynedd nesaf

Yn darparu hyd at 15 awr o gymorth un i un wedi ei ariannu'n llawn, mae'r gwasanaeth mentora ar gael i bob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Mae cyfeiriadur ar-lein yn nodi'r sectorau allweddol a meysydd arbenigedd pob mentor.



Mae'r gwasanaeth ar gael i bob busnes cofrestredig naill ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn. Os oes gennych ddiddordeb yn y gwasanaeth hwn, ewch i'n gwefan i gwblhau'r ffurflen gais -

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

GWASANAETH CYNGHORI
ADVISORY SERVICE

## Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor annibynnol, pwrpasol a chyfrinachol i ffermwyr i helpu i ddatblygu yn gynaliadwy a gwella eu perfformiad economaidd ac amgylcheddol.

Bydd hyd at 90% o gostau ar gael gyda chyfyngiad o £3000 i bob busnes cymwys i gael cyngor ar sail un i un a/neu grŵp.

### Yn ogystal â'r rhai oedd ar gael yn flaenorol, mae categorïau newydd wedi'u cyflwyno, gan gynnwys...

- Lles Iechyd Anifeiliaid a Bio-ddiogelwch
- Cyngor Milfeddygol Arbenigol
- Effeithlonrwydd Ynni a Dŵr
- Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy
- Cyngor Carbon
- Techneg Amaethyddol

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# Gweithdai Hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid

**A oes gennych chi broblem penodol yn ymwneud â iechyd anifeiliaid neu glefyd sy'n cael effaith nid yn unig ar eich da byw ond ar berfformiad eich busnes hefyd?**

Bydd ein Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid achredededig sydd wedi'u hariannu'n llawn yn cael eu darparu gan rwydwaith o Filfeddygon lleol ledled Cymru. Mae pynciau'r gweithdai'n cyd-fynd â blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru, a byddant yn cynnwys bioddiogelwch, lledu clefydau, diagnosis, triniaeth a rheolaeth.

Bydd pob gweithdy tair awr yn rhoi gwybodaeth allweddol ac arweiniad ymarferol ar faterion iechyd a lles anifeiliaid penodol.

Rhaid i bob cleient gofrestru gyda Cyswllt Ffermio cyn mynychu. Bydd gwybodaeth am bob gweithdy rydych yn ei gwblhau yn cael ei gofnodi ar eich cofnod Storfa Sgiliau (DPP) a byddwch yn derbyn 'tystysgrif presenoldeb' Gwobrau Lantra.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y rhestr gyfredol o fodiwlau sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.

**Swyddog Datblygu Lleol**

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

## CYLLID SGILIAU CYSWLLT FFERMIO








Mae Rhaglen Hyfforddiant Achredededig Cyswllt Ffermio yn rhoi'r cyfle i unigolion i ymgeisio am gyllid tuag at gwrs hyfforddiant byr wedi ei achredu.

- Rhoddir cymorth ariannol hyd at **80%** ar gyfer pob cwrs hyfforddi i unigolion sydd wedi cofrestru
- Mwy na **70 o gyrsiau** ar gael
- Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd** trwy Gymru

Caiff ceisiadau eu awdurdodi yn fisol

## YMGEISIWCH NAWR I...

**...ddatblygu eich sgiliau, ddatblygu eich busnes a chynllunio ymlaen.**

**Swyddog Datblygu lleol**

**03456 000 813** **llyw.cymru/cyswlltffermio**


9
17
22
19
Comment
14

# UNED GEFNOGI RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU (WRNSU)

**Rôl WRNSU yw hwyluso'r broses rwydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'n defnyddio sawl platfform ar y cyfryngau i rannu gwybodaeth, arferion gorau ac arbenigedd ar draws Cymru, y DU ac Ewrop.**

Wrth i Raglen RDP yr UE ddechrau tynnu tua'r terfyn, rydym wedi ychwanegu ardal gynnwys newydd ar y wefan o'r enw Rhaglenni Gwledig gyda grantiau cyfredol sydd ar gael wedi'u cynllunio i sicrhau bod yna barhad o gefnogaeth i gamau gweithredu pwysig a ariannwyd yn flaenorol drwy Raglen Datblygu Gwledig yr UE.

Bydd rhagor o fanylion ar gael drwy'r sianeli canlynol a restrir isod.

Cysylltwch â Rhwydwaith Gwledig Cymru i gael rhagor o wybodaeth am brosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig, astudiaethau achos a'r newyddion diweddaraf.

**facebook.com/WalesRuralNet**

**@RGC_WRN**

**ruralnetwork@llyw.cymru**

**www.businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/yr-uned-gefnogi-rhwydwaith-gwledig-cymru/cylchlythyrau**

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Uned Cymorth
Wales Rural Network
Support Unit

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL WALES**
www.farmwell.wales

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
0800 5874262

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
info@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
farmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

